

Statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru: Crynodeb o ymatebion yr arolwg

Hydref 2018

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn trafod statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Fel rhan o'i ymchwiliad, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg i'w helpu i ddeall barn pobl ifanc a rhieni/gwarcheidwaid am y cymhwyster.

Hyrwyddo a dadansoddi'r arolwg

Anogwyd disgyblion ysgol uwchradd a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid i gymryd rhan yn yr arolwg drwy ymweliadau ysgol Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc, gweithdai allgymorth a thrwy bresenoldeb y Pwyllgor a'r Cynulliad ar Twitter a gwefannau eraill. Defnyddiwyd hysbysebion Facebook i dargedu pobl o ystod eang o ardaloedd daearyddol.

Er mwyn llunio'r crynodeb hwn, cynhaliwyd dadansoddiad o set ddata gyflawn; gellir priodoli'r holl ddata i ymatebion unigol a gellir dadansoddi ymhellach ar gais.

Caiff y canlyniadau eu cyfrifo yn ôl nifer y bobl a ymatebodd i'r cwestiwn penodol, nid nifer y bobl a ymatebodd i'r arolwg yn gyffredinol.

Ymatebwyr i'r arolwg


Casglwyd **1,203** o ymatebion i'r arolwg. Gellir categorieiddio ymatebion i'r grwpiau a ganlyn:

- Yr holl ymatebion - **1,203**
- Rhieni/gwarcheidwaid - **426** o ymatebion*
- Disgyblion - **777** o ymatebion



*Gofynnwyd i rieni a gwarcheidwaid ateb cwestiynau'r arolwg sy'n ymwneud â phrofiad eu plentyn o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae ystadegau ar wahân wedi'u cynnwys lle mae'r safbwyntiau hyn yn wahanol iawn i ymatebion y disgyblion.

Nododd yr ymatebwyr eu profiad o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC):




Dewis

Dywedodd **91 y cant** o'r ymatebwyr wrthym na roddwyd cyfle iddynt ddewis astudio CBC ai peidio.

Dywedodd **6 y cant** o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael dewis ac roedd **3 y cant** yn ansicr.

Lefel Sylfaen y Dystysgrif Her Sgiliau (THS)

Roedd **62 y cant** o'r ymatebwyr yn astudio Lefel Sylfaen y Dystysgrif Her Sgiliau.



Yn eich barn chi, sut y mae Lefel Sylfaen y THS yn cymharu â chymwysterau eraill rydych yn eu hastudio?

Paratoi at waith a bywyd

Roedd **58 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Sylfaen y THS yn teimlo ei bod yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi o ran paratoi at waith a bywyd. Roedd **27 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **15 y cant** yn teimlo ei bod yn fwy defnyddiol.

Roedd **70 y cant** o **rieni/warcheidwaid** yn teimlo bod Lefel Sylfaen y THS yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill. Roedd **15 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **15 y cant** yn teimlo ei bod yn fwy defnyddiol.

Datblygu gwybodaeth a sgiliau

Roedd **55 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Sylfaen y THS yn teimlo ei bod yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio

ochr yn ochr â hi o ran datblygu gwybodaeth a sgiliau. Roedd **30 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **15 y cant** yn teimlo ei bod yn fwy defnyddiol.

Roedd **67 y cant** o **rieni/warcheidwaid** yn teimlo bod Lefel Sylfaen y THS yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill. Roedd **22 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **11 y cant** yn teimlo ei bod yn fwy defnyddiol.

Yr amser y mae'n ei gymryd

Roedd **67 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Sylfaen y THS yn teimlo ei bod yn cymryd mwy o amser na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi. Roedd **22 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **10 y cant** yn teimlo ei bod yn cymryd llai o amser.

Lefel yr anhawster


Roedd **44 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Sylfaen y THS yn teimlo ei bod yr un lefel o anhawster â chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi.

Roedd **39 y cant** yn teimlo ei bod yn llai anodd ac roedd **17 y cant** yn teimlo ei bod yn anoddach.

Sefydliad astudio


Gofynnwyd i'r ymatebwyr lle roeddent yn astudio Lefel Sylfaen y THS:

Ble oeddech yn astudio?



Lefel Genedlaethol y Dystysgrif Her Sgiliau

Roedd **57 y cant** o'r ymatebwyr yn astudio Lefel Genedlaethol y Dystysgrif Her Sgiliau.



Yn eich barn chi, sut y mae Lefel Genedlaethol y THS yn cymharu â chymwysterau eraill rydych yn eu hastudio?

Paratoi at waith a bywyd

Roedd **54 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Genedlaethol y THS yn teimlo ei bod yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi o ran paratoi at waith a bywyd.

Roedd **28 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **18 y cant** yn teimlo ei bod yn fwy defnyddiol.

Datblygu gwybodaeth a sgiliau

Roedd **56 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Genedlaethol y THS yn teimlo ei bod yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi o ran datblygu gwybodaeth a sgiliau.

Roedd **29 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **15 y cant** yn teimlo ei bod yn fwy defnyddiol.

Yr amser y mae'n ei gymryd

Roedd **70 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Genedlaethol y THS yn teimlo ei bod yn cymryd mwy o amser na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi.

Roedd **22 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **8 y cant** yn teimlo ei bod yn cymryd llai o amser.


Lefel yr anhawster

Roedd **45 y cant** o'r rhai a oedd wedi astudio Lefel Genedlaethol y THS yn teimlo ei bod yr un anhawster â chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi.

Roedd **35 y cant** yn teimlo ei bod yn llai anodd ac roedd **20 y cant** yn teimlo ei bod yn anoddach.


Sefydliad astudio

Gofynnwyd i'r ymatebwyr lle roeddent yn astudio Lefel Genedlaethol y THS:



Lefel Uwch y Dystysgrif Her Sgiliau

Roedd **49 y cant** o'r ymatebwyr yn astudio Lefel Uwch y Dystysgrif Her Sgiliau. (Roedd **69 y cant** o rieni a gwarcheidwaid yn ateb ar ran disgyblion a oedd yn astudio'r Lefel Uwch).



Yn eich barn chi, sut y mae Lefel Uwch y THS yn cymharu â chymwysterau eraill rydych yn eu hastudio?

Paratoi at waith a bywyd

Roedd **54 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Uwch y THS yn teimlo ei bod yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi o ran paratoi at waith a bywyd.

Roedd **25 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **21 y cant** yn teimlo ei bod yn fwy defnyddiol.

Datblygu gwybodaeth a sgiliau

Roedd **53 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Uwch y THS yn teimlo ei bod yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi o ran datblygu gwybodaeth a sgiliau.

Roedd **30 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **17 y cant** yn teimlo ei bod yn fwy defnyddiol.

Yr amser y mae'n ei gymryd

Roedd **69 y cant** o'r cyfranogwyr yn teimlo bod Lefel Uwch y THS yn cymryd mwy o amser na chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi.

Roedd **23 y cant** yn teimlo ei bod yr un peth ac roedd **8 y cant** yn teimlo ei bod yn cymryd llai o amser.


Lefel yr anhawster

Roedd **42 y cant** o'r rhai a oedd yn astudio Lefel Uwch y THS yn teimlo ei bod yr un lefel o anhawster â chymwysterau eraill roeddent yn eu hastudio/wedi'u hastudio ochr yn ochr â hi.

Roedd **36 y cant** yn teimlo ei bod yn llai anodd ac roedd **22 y cant** yn teimlo ei bod yn anoddach.

Sefydliad astudio

Gofynnwyd i'r ymatebwyr lle roeddent yn astudio Lefel Uwch y THS:




Effaith astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa effaith roedd astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ei chael ar astudio cymwysterau eraill.

O'r rhai a ymatebodd:

Roedd **50 y cant** yn credu ei bod wedi cael effaith negyddol (*cododd hyn i 67 y cant o rieni*).


Effaith ar gymwysterau eraill



Gofynnwyd i'r ymatebwyr esbonio eu hatebion.

Datgelodd dadansoddiad data ansoddol y themâu a ganlyn ymysg y 662 o ymatebion a gafwyd:

Themâu



Cymryd amser

O'r holl ymatebion a gafwyd, soniodd **57 y cant** am yr amser a dreuliwyd ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru:

Mae'n debyg ei fod yn golygu bod gennyf lai o amser ar gyfer cymwysterau TGAU y mae angen i mi eu hastudio neu rwyf am eu hastudio.

Cymryd llawer o amser - nid oes digon o amser i adolygu ar gyfer pynciau eraill, yn enwedig ar adeg arholiadau. Gormod o waith a dim digon o amser i'w wneud.

Yn aml, bu'n rhaid i mi aros mewn yn ystod amser egwyl neu amser cinio i wneud gwaith Bagloriaeth Cymru yn hytrach na mynd i sesiynau adolygu fy mhynciau pwysicach. Mae wedi cymryd amser y gallwn fod wedi'i dreulio ar waith ar gyfer fy mhynciau eraill. Rwyf wedi treulio mwy o amser yn gweithio ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru nag unrhyw bwnc arall ac wedi gorfod gweithio drwy'r nos i orffen gwaith ar fy mhynciau eraill ar ben fy ngwaith ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r pwnc yn niwsans llwyr ac rwy'n teimlo nad yw'n cael effaith gadarnhaol ar fy ngwaith ysgol.

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, pwnc y cefais fy ngorfodi i'w ddilyn, wedi tynnu sylw oddi ar fy astudiaethau eraill, mwy defnyddiol o ganlyniad i wastraffu amser ar dasgau undonog. Gallai'r amser hwn fod wedi'i ddefnyddio i ddatblygu fy ngwybodaeth am y pynciau y mae gennyf ddiddordeb ynddynt, ac a fydd o gymorth i'm haddysg yn y brifysgol a'm gyrfa yn y dyfodol.

Mae'n cymryd amser oddi ar bynciau eraill ac yn lleihau opsiynau - yn TGAU a Safon Uwch. Mae'n warth llwyr bod myfyrwyr fel fy merch, a hoffai astudio 4 pwnc yn Safon Uwch, yn cael eu rhwystro rhag gwneud hynny drwy orfod dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn y bôn, mae'n cyfyngu ar eu dewisiadau pynciau o TGAU ymlaen drwy gymryd amser gwerthfawr. (...)

Llai o amser i ganolbwyntio ar fy mhynciau arall, mae'n cymryd opsiwn lan yn TGAU (byddwn wedi astudio ffrangeg ond roedd dim digon o opsiynau ganddaf).

Datblygu sgiliau

Roedd **17 y cant** o'r ymatebion a gafwyd yn sôn am sgiliau. Roedd rhai'n teimlo eu bod wedi datblygu sgiliau o ganlyniad i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Nid oedd eraill yn teimlo bod y sgiliau a ddatblygwyd o ganlyniad i'r cymhwyster wedi bod o fudd iddynt:

Effaith gadarnhaol

Mae'n datblygu llawer o sgiliau sydd ddim i'w gweld mewn pynciau eraill.

Yn y prosiectau, dysgais sgiliau rwy'n eu defnyddio yn y brifysgol. Deuthum yn arweinydd gwell oherwydd yr her gymunedol. Roedd fy sgiliau meddwl beirniadol a'm sgiliau ymchwil yn llawer mwy datblygedig na rhai fy nghyfoedion mewn prifysgol yn Lloegr. Hefyd, rhoddodd hwb i'm cais drwy gynigion a gwella fy natganiad personol. Nid oes diben cael llawer o wybodaeth gyda sgiliau gwael i'w defnyddio.

Rwy'n credu bod fy mab wedi dysgu neu ddatblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy y mae wedi gallu eu defnyddio yn ei bynciau cwricwlwm eraill. Yn ogystal â sgiliau craidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, mae wedi magu hyder a dysgu sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm sy'n amhrisiadwy. Yn ogystal, mae wedi cael y cyfle i gynnal prosiect ymchwil a chwblhau tasgau a fydd yn sicr yn ei baratoi at fywyd yn y dyfodol.

Effaith negyddol

Mae fy mhlentyn eisioes yn dysgu'r sgiliau o fewn lefelau-A dyniaethol.

Canfûm fod y sgiliau a ddefnyddiwyd wrth wneud fy ngwaith ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn sgiliau rwyf eisioes wedi'u datblygu drwy fy addysg orfodol a TGAU, megis sgiliau TG, ac maent yn datblygu yn fy astudiaethau Safon Uwch. Yn enwedig ar Safon Uwch, bu'n rhaid i mi dreulio llai o amser yn astudio ar gyfer fy arholiadau Safon UG i wneud gwaith Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yr oeddwn yn teimlo ei fod yn anodd yn ddiangen, heb ychwanegu dim at fy sgiliau personol. Mae wedi ychwanegu

haen arall o straen at lwyth gwaith sydd eisoes yn drwm ac, oherwydd fy newis o bynciau, mae'n gwneud ychydig iawn i'm helpu i baratoi at y brifysgol.

Nid wy'n credu bod y wybodaeth a'r sgiliau ddysgwyd o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru o reidrwydd yn drosglwyddadwy i bynciau eraill, ond mae gan y lefel uwch lawer o elfennau/sgiliau sy'n sgiliau bywyd defnyddiol iawn (nid i'r un graddau ar y lefel sylfaen/genedlaethol)

Straen

Roedd **8 y cant** o'r ymatebion a gafwyd yn sôn bod straen yn ffactor sy'n cyfrannu at effaith negyddol y cymhwyster:

Rwyf wedi gorfod peidio adolygu ar gyfer fy mhynciau dwi wedi dewis er mwyn gallu cwblhau drafft o un o heriau'r BAC. Mae hefyd yn cymryd llawer iawn o amser i gyrraedd safon digon uchel ac dwi'n credu mae'n achosi gormodedd o straen ar fyfyrwyr.

Rwy'n credu bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi cymryd llawer o'm hamser oddi ar fy mhynciau eraill ac wedi achosi straen enfawr ar fy mywyd. Drwy fy ngorfodi i astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, rwy'n credu'n gryf bod fy ysgol wedi fy rhoi dan anfantais o ran mynd i'r brifysgol o'm cymharu â myfyrwyr yn Lloegr. Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn achosi llawer mwy o straen na'i werth.


Mae wedi creu straen eithriadol i mi yn yr ysgol gan ei fod yn cymryd llawer o amser a dylwn fod yn canolbwyntio ar fy nghymwysterau TGAU gwirioneddol yn hytrach na "phwnc" sy'n debycach i synnwyr cyffredin na bod o gymorth i mi yn y dyfodol.

Roedd yn bwnc gorfodol ochr yn ochr â chymwysterau Safon Uwch a greodd lawer o straen. Mae'n ychwanegu llawer o bwysau gan ei bod yn bwysig gwneud yn dda ynddo, ond weithiau mae'n gallu cymryd sylw oddi ar bynciau eraill sy'n bwysicach, yn achos y rhan fwyaf o bobl, yn enwedig wrth wneud cais i'r brifysgol. Nid oeddwn am ei ddilyn oherwydd bod gennyf fwy o ddiddordeb mewn dilyn mwy o gyrsiau Safon Uwch, ond cefais fy ngorfodi i roi'r gorau i un o'm hopsiynau Safon Uwch er mwyn ei ddilyn.

Datblygu'r sgiliau ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roeddent yn credu bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi cyrraedd y nod neu y byddai'n cyrraedd y nod, sef galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd.

Roedd **29 y cant** yn anghytuno'n gryf (*cododd hyn i 35 y cant o rieni*)




Gwerth i ddilyniant gyrfaol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo y byddai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn werthfawr i'r yrfa roeddent am ei dilyn.

Nid oedd **66 y cant** yn teimlo y byddai'n werthfawr (*cododd hyn i 72 y cant o rieni*)


Gwerth i ddilyniant gyrfaol



Ddim yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nad oeddent wedi astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru pa resymau a gyfrannodd at hyn (gallai'r ymatebwyr ddewis nifer o resymau):


Pam na wnaethoch astudio CBC?



Sylwadau

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ehangu ar eu hatebion cynharach.

O'r 387 o ymatebion a gafwyd, daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg:



Prifysgolion

Soniwyd am brifysgolion mewn **25 y cant** o'r ymatebion a gafwyd. Roedd y mwyafrif yn teimlo bod y cymhwyster yn cael effaith negyddol ar y broses o wneud cais i brifysgolion, ond roedd nifer fach yn teimlo ei fod yn cael effaith gadarnhaol.

Safbwyntiau negyddol

Rwy'n credu bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cymryd amser oddi ar y gwersi y byddai'n well gennyf fod ynddynt/y mae arnaf eu hangen ar gyfer y dyfodol. Os penderfynaf fynd i'r brifysgol mewn gwlad arall, megis Lloegr neu'r Alban, rwy'n teimlo y bydd yn dda i ddim, ac na fyddant yn chwilio am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Dechreuodd un o'm meibion astudio mathemateg, ffiseg, electroneg a chemeg ar Safon Uwch. Roedd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn mynd â chymaint o'i amser iddo roi'r gorau i astudio mathemateg ac, erbyn hyn, mae'n bwriadu dilyn cwrs sylfaen mewn mathemateg am flwyddyn yn y

brifysgol o'i ddewis cyn ei gwrs gradd. Byddai'n well o lawer ganddo pe bai wedi rhoi'r gorau i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae fy mab arall newydd orffen Safon Uwch. Gwnaethom ofyn yn y brifysgol o'i ddewis a fyddai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn dderbyniol fel un o'i raddau - tynnodd y swyddog dyraniadau wyneb a grwgnach y gallai fod, ond y byddai'n well ganddynt gael pynciau sy'n berthnasol i'r cwrs roedd yn bwriadu ei astudio!

Safbwyntiau cadarnhaol

Rwy'n credu bod myfyrwyr, i ddechrau, yn cael eu rhoi oddi ar eu hechel oherwydd ochr weinyddol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ond, pan oeddwn yn gwneud cais i fynd i'r brifysgol, roedd yn fendith... canfûm fod eu rôl yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru yn bwysicach i rai athrawon nag eraill ond, ar y cyfan, rwy'n credu bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn bwysig ac yn ddefnyddiol iawn i fyfyrwyr gan y gall y radd ychwanegol olygu y cewch le yn y brifysgol o'ch dewis.

Mae CBC wedi cael effaith ENFAWR a chadarnhaol iawn ar fy nyfodol a'r prifysgolion y gallaf wneud cais iddynt. Mae hyn oherwydd ei fod yn cyfrif fel cymhwyster Safon Uwch llawn sy'n fuddiol iawn i rywun fel fi, sy'n llawer gwell mewn pynciau gwaith cwrs. Mae'r ffaith bod gennyf CBC yn golygu bod gennyf 4 cymhwyster Safon Uwch a gallaf ddweud bod gennyf A mewn cymhwyster Safon Uwch sy'n hynod apelgar i brifysgolion/gyflogwyr, beth bynnag yw'r pwnc.*

Pwnc gorfodol

Roedd **14 y cant** o'r ymatebion a gafwyd yn sôn am y ffaith bod y pwnc yn orfodol. Roedd pob un o'r ymatebion hyn yn credu y dylai fod yn bwnc opsiynol.

Ni ddylai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn enwedig ar Safon Uwch, fod yn orfodol. Dylid caniatáu i ddysgwyr ei astudio os ydynt yn dewis gwneud, ond ni ddylid gorfodi'r rhai nad ydynt am ei astudio/nad oes angen iddynt ei astudio i wneud hynny.

Rwy'n credu ei fod yn gwrs da i'r rhai sy'n dewis ei astudio, ond ni ddylid ei wneud yn orfodol gan ei fod yn creu straen a phwysau diangen.

Yn anffodus, gan fod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn orfodol, byddaf yn dilyn pum cymhwyster Safon Uwch, llwyth cwrs trwm. Ymddengys fod hon yn gŵyn

gyffredin, gyda llawer o fyfyrwyr yn gorfod rhoi'r gorau i bwnc y mae ganddynt ddiddordeb gwirioneddol ynddo ar gyfer pwnc â gwaith papur i'w wneud sy'n ymddangos yn ddiddiwedd, y mae'n debyg nad yw'n cyfrannu dim byd heblaw am bwyntiau UCAS. Wrth gwrs, er bod hyn yn bwysig ac yn ffactor cryf wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn cael lle, nid yw pob prifysgol yn defnyddio system bwyntiau UCAS.

Rwyf ar ddeall nad yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru bellach yn orfodol (wel, o leiaf yn yr ysgol roedd fy mhlant i'n mynd iddi) ar Safon Uwch ac mae hyn, yn sicr, yn gam ymlaen.

Sgiliau

Roedd **20 y cant** o'r ymatebion a gafwyd yn sôn am sgiliau. Er bod llawer o'r ymatebion yn cydnabod diben Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, o ran datblygu sgiliau heblaw am y cymwysterau traddodiadol sy'n cael eu hastudio, nid oedd llawer yn teimlo bod hyn yn fuddiol neu'n cael ei gyflawni'n briodol.

Na fydd, ni fydd yn ddefnyddiol yn yr yrfa rwyf am ei dilyn gan na fydd angen i mi, fel seicotherapydd, ddylunio fy nghynnyrch fy hun a cheisio ei werthu. Pe bawn yn agor fy musnes fy hun ym maes seicoleg, gallaf wneud hynny gyda'r sgiliau rwy'n eu dysgu o'm gwersi busnes, a ddewisais fel opsiwn. Nid yw sgiliau gwirioneddol werthfawr yn cael eu haddysgu yng ngwersi Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ac rydym yn cael ein haddysgu sut i weithio mewn grwpiau yng ngwersi ABCh (...)

Rwy'n credu bod angen ailwampio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn sylweddol. Nid yw'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn deall pam mae'n rhaid i ni ddilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru sydd, yn ei dro, yn creu meddylfryd negyddol tuag at y cymhwyster. Nod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yw rhoi sgiliau defnyddiol i ni. Fodd bynnag, gallaf ddweud nad wyf wedi dysgu/datblygu sgiliau a fydd yn fuddiol i mi yn y dyfodol. Dylai rhagor o bwyslais fod ar sgiliau bywyd megis gwleidyddiaeth, cyllid a cheisiadau am swyddi a fyddai'n wirioneddol fuddiol.

Rwy'n teimlo y gallai'r Dystysgrif Her Sgiliau fod yn fwy perthnasol i fywyd gwaith a bywyd oedolyn. Can fy mod bron yn 16 mlwydd oed, mae fy nghydfyfyrwyr yn fy mlwyddyn a minnau'n cyrraedd yr oedran pan ellir ein hystyried yn gyfreithiol yn oedolion mewn sawl agwedd: cael y cyfle i weithio; bod yn

berchen ar eiddo; neu ddechrau teuluoedd. Wrth i ni gyrraedd oedran oedolyn, mae angen i ni ddysgu sut i ymdopi â'r ffactorau o fywyd oedolyn y soniwyd amdanynt uchod. Byddwn wedi tybio mai hwn fyddai nod gwersi'r Dystysgrif Her Sgiliau ond, mewn gwirionedd, nid ydym yn gwneud dim byd tebyg i hynny. Yn fy ngwersi Tystysgrif Her Sgiliau, rydym wedi canolbwyntio ar yr 'Her Gymunedol', ac nid wyf wedi dysgu llawer mwy o wybodaeth am y pwnc nag a oedd gennyf cyn y prosiect.

Rwy'n credu bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn dda iawn o ran gwella sgiliau pobl ac mae'n helpu i ddysgu sut i lunio CV a'r hyn y mae cyflogwyr yn ei ofyn gennych. Dyma sgiliau y mae arnom eu hangen mewn bywyd go iawn.

Anfantais

Roedd **4 y cant** o'r ymatebion a gafwyd yn teimlo bod CBC yn rhoi myfyrwyr Cymru dan anfantais.

Mae'n rhoi plant Cymru dan anfantais oherwydd bod rhaid iddo fod yn un o'r opsiynau. Yn yr un modd, mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gorfodi ein plant i ddilyn Addysg Grefyddol a Chymraeg ar TGAU hefyd yn rhoi plant Cymru dan anfantais o'u cymharu â gweddill y DU.

Bydd myfyriwr o Gymru sy'n astudio yn Lloegr dan anfantais o'i gymharu â'i gyfoedion yn Lloegr, gan y bydd ganddo BWNC CYFAN YN LLAI ar Safon Uwch fel sail i'w wybodaeth. Gallai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru fod dda i blant sydd â rhagolygon academaidd isel, ond mae'n rhwystr i'r rhai sy'n anelu'n uchel ond nad ydynt yn ddigon da i fynd i Rydgrawnt.

Llwybr gyrfaol

Roedd **8 y cant** o'r ymatebion a gafwyd yn sôn am lwybrau gyrfaol. Fel gyda'r safbwyntiau ar ddefnyddioldeb CBC ar gyfer ceisiadau prifysgol, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn teimlo bod y cymhwyster yn ddefnyddiol ar gyfer llwybrau gyrfaol penodol. Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymatebion yn teimlo ei fod wedi bod yn werthfawr.

Mae gen i farn gadarnhaol am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, ond rwy'n gweld ffrindiau sydd â llwybr gyrfaol penodol lle na fydd Cymhwyster

Bagloriaeth Cymru o fudd iddynt ac ni fydd unrhyw un o'r prifysgolion y maent yn gobeithio mynd iddynt yn derbyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru fel Safon Uwch. Fodd bynnag, nid oes gennyf lwybr penodol ac rwy'n teimlo y bydd y llwybr cyrchfan yn help mawr a gallaf hefyd ddefnyddio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru fel pedwerydd cymhwyster Safon Uwch... Pe bai pobl yn dewis Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a'i ddilyn fel Safon Uwch, efallai y byddai prifysgolion yn rhoi mwy o ystyriaeth iddo ac yn gadael i fyfyrwyr Cymru ei ddefnyddio i gael lle yn y brifysgol.

Gwnewch e'n fwy cysylltiedig â gyrfaedd gyda ffocws ymarferol yn y dosbarth a theithiau i weithleoedd go iawn, yn hytrach nag ysgrifennu traethodau. Fel arall, man a man iddo fod yn gymhwyster Safon Uwch. Nid yw'r athrawon hyd yn oed yn gwybod sut i'w addysgu.

Cael Cymhwyster Bagloriaeth Cymru oedd y rheswm dros gymeradwyo cais fy mhlentyn i fynd i'r brifysgol. Hebdo, ni fyddai hi wedi gallu astudio ar gyfer yr yrfa o'i dewis.

Addysgu

Roedd **11 y cant** o'r ymatebion a gafwyd yn sôn am addysgu CBC. Roedd llawer yn teimlo bod hyn yn anghyson ac nad oes gan yr athrawon yr hyfforddiant priodol i addysgu'r pwnc.

Hefyd, ac yn bwysicaf oll mae'n debyg, nid yw'r rhan fwyaf o'r athrawon yn gwybod yr hyn mae'n rhaid iddynt ei addysgu ac mae fel arfer yn wael pan fyddant yn gwybod. Os ydych yn lwcus, cewch yr athro sy'n bennaeth addysgu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn yr ysgol, ond mae hynny'n golygu mai dim ond 10-15 o fyfyrwyr (Safon Uwch) sy'n ddigon ffodus i gael yr athro hwn. O ganlyniad i safon wael yr addysgu, nid oes syniad gan y myfyrwyr o ran yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud, felly mae'n rhwystro eu hymroddiad i'r pwnc.

Nid yw'r athrawon hyd yn oed yn gwybod sut i'w addysgu. Mae'n annheg rhoi baich o'r fath ar fyfyrwyr ac ysgolion i addysgu hyn. Mae'n gweithio mewn theori, ond nid yn ymarferol.


Yn gyntaf, mae safon yr addysgu yn eithaf gwael, heb fai ar yr athro fel arfer. Mae'n amlwg nad ydynt yn gwybod yn iawn beth yw Cymhwyster Bagloriaeth

Cymru, ac nid yw'r un ohonynt yn arbenigwyr ar y pwnc, o leiaf yn fy mhrofiad i. Mae pob athro Cymhwyster Bagloriaeth Cymru rwyf wedi dod ar ei draws wedi bod o faes arbenigedd arall, ac mae rhai hyd yn oed yn cyfaddef mai dim ond am yr arian ychwanegol maent yn ei wneud.

Demograffeg yr ymatebwyr

Rhyw

Roedd **59 y cant** o'r ymatebwyr yn fenywaidd a **35 y cant** yn wrywaidd.



Lleoliad yr ymatebwyr

Casglwyd yr ymatebion gan bob awdurdod lleol yng Nghymru a chyflwynwyd y nifer fwyaf o ymatebion o Gasnewydd (26 y cant), Caerdydd (15 y cant) a Bro Morgannwg (16 y cant).

15 - Blaenau Gwent

15 - Pen-y-bont ar Ogwr

31 - Caerffili

143 - Caerdydd

53 - Sir Gaerfyrddin

17 - Ceredigion

12 - Conwy

15 - Sir Ddinbych

20 - Sir y Fflint

19 - Gwynedd

15 - Ynys Môn

4 - Merthyr Tudful

26 - Sir Fynwy

15 - Castell-nedd Port Talbot

256 - Casnewydd

14 - Sir Benfro

29 - Powys

36 - Rhondda Cynon Taf

18 - Abertawe

10 - Torfaen

149 - Bro Morgannwg

30 - Wrecsam

